

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

14/9/2015

Presennol: Eleri Jones (Cadeirydd), John Morris, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, Tylly Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau Emyr Jones ac Alan Jones Evans. Estynnwyd croeso arbennig i Geraint Roberts i'w gyfarfod cyntaf. Ar ran yr aelodau, mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad gyda Dafydd Williams a Geraint Roberts yn eu profedigaethau diweddar.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 13, 2015.
5. Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda.
6. Materion y Clerc: adroddwyd fod cais am gymorth grant at gynnal y fynwent o dan ystyriaeth a disgwylir ateb cyn hir.
7. Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Sir:

1) Mae wrthi'n negodi materion yn ymwneud a thrafnidiaeth rhwng trigolion a CNC wrth iddynt gario coed a gwypwyd yn ardal Glyn Bach.

2) Mae plinth concrit wedi ei osod ar safle ailgylchu cymunedol cyffordd Wenallt. Bydd ffrâm haearn yn cael ei ychwanegu yn fuan er cwblhau'r uwchraddiad.

3) Mae mewn trafodaeth gyda'r swyddog ailgylchu am ddatblygu safle ailgylchu cymunedol sydd ar gyffordd Gelligrin a Glyn Rhedyn (Ferny Glen). Mae sawl annedd yn defnyddio'r safle yma: Brynbedwog, Craig yr allor, Bryn Gwyn, Gelligrin, Glyn rhedyn, Cymerig, Ysgubor Gelli Grin a Gelli Gron.

4) Bydd yn trafod cyflymder traffic yn ardal Pen y bont a Phont Mwnwgl y llyn gyda'r Adran Briffyrdd.

Diolchwyd i Alan Jones Evans am ei waith cyson ac effeithiol ar ran y trigolion.

8. Materion ariannol:

Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol a chytunwyd i dalu anfonebau Hacker Young ac M J Morris.

9. Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:

Safle ail-gylchu Llangywer -erbyn hyn mae sbwriel adeiladu wedi ei adael yno ac yn disgyn drosodd i dir preifat cyfagos; awgrymwyd codi compownd i guddio'r fan gyda chôd i'w agor sy'n wybyddus i ddefnyddwyr dilys yn unig. **Gweithredu: Clerc a'r Cynghorydd Sir**

Cytunwyd i dynnu sylw Adran y Priffyrdd at wrych ar ochr y Clwb Hwyllo sy'n tyfu drosodd i'r ffordd o dan y Fach ddeiliog; mae'n achosi trafferthion i drafnidiaeth, yn arbennig trelars a charafanau. Bu damwain yn ddiweddar. **Gweithredu: Clerc a'r Cynghorydd Sir**

Cytunwyd i dynnu sylw Adran y Priffyrdd at y cerrig sy'n disgyn i'r ffordd o dan Fryntirion. **Gweithredu: Clerc a'r Cynghorydd Sir**

10. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniodd am staffio a phrydles yr Henblas. Parc Cenedlaethol Eryri sydd yn gyfrifol am y maes parcio yn Llangywer erbyn hyn. Cynhelir cyfarfod y mis hwn gydag Anwen Davies i drafod sut i gynnal gwasanaethau ym Mhenllyn.

11. **Gohebiaeth:**

Parc Cenedlaethol Eryri: derbyniwyd gwybodaeth am yr ymgyrch Gweld Sêr ac am hyfforddiant ar gynllunio.

Gwynedd: Cytunodd y Cadeirydd a Dafydd Williams i fynychu'r hyfforddiant ar y Côt Ymddygiad ar 14/10/15.

Derbyniwyd rhaglen waith Adran y Priffyrdd a chafwyd adroddiad fod y gwaith o osod giatiau ceffyl newydd ar Lwybr March Rhif 7 wrth Fryn Hynod wedi ei gwblhau.

Derbyniwyd newyddlen Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn.

Derbyniwyd eglurhad o'r ail strwythuro o'r Gwasanaeth Cofrestru sy'n golygu cau'r gwasanaeth rhan amser yn Y Bala.

Un Llais Cymru: Rhoddwyd ystyriaeth i Agenda Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru yn Nolgellau 23/9/15. Bydd y Cadeirydd yn cynrychioli'r Cyngor.

Nid oedd yn bosib i gynrychiolydd fynychu Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ym Mhontrhydfendigaid.

Eraill: Ystyriwyd Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ffiniau Etholaethau Lleol a gofynnwyd i'r Clerc ymateb ar ran y Cyngor. **Gweithredu: Clerc**

Trafodwyd yr ymgynghoriad i wasanaeth mamolaeth y gogledd gan adael i unigolion ymateb os dymunant.

Derbyniwyd gwybodaeth am y gwasanaeth CAB sydd yn rhoi cyngor am ddim yng Nghanolfan Henblas bob yn ail ddydd Mawrth.

12. Cadarnhawyd dyddiad y Cyfarfod nesaf: 9/11/15